Ailgylchu ar gyfer Sir Ddinbych

Casgliad Biniau Glas

Cyflwyniad

Mae eich bin olwyn glas newydd yn disodli eich bocs ailgylchu, y bag glas a'r bag dympi, felly'n awr gellir rhoi'r defnyddiau ailgylchu i gyd yn yr un bin hwn. Yn ogystal â'r defnyddiau a ailgylchwyd o'r blaen (papur, caniau, poteli gwydr a phlastig), gyda'r bin olwyn glas yn awr fe allwn dderbyn pob math o gardfwrdd, plastig cymysg a 'tetrapacks' (gweler tudalen 3 am ragor o fanylion ar beth yn union y gallwch ei roi yn eich bin newydd).

Cysylltwch â ni

Am wybodaeth bellach cysylltwch â Chyngor Sir Ddinbych:

Ffôn: 01824 706100
E-bost: canolfangwasanaethcwsmer@sirddinbych.gov.uk
Ysgrifennu: Ailgylchu dros Sir Ddinbych, Depo Parc Cinmel, Bodelwyddan, Sir Ddinbych, LL18 5UX
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu

Bin Glas:
Beth sy'n mynd i ble?

Pecynnau Tetra

Cartonau

Plastigion

Poteli Diod | Poteli Llaeth | Poteli Siampŵ | Tybiau | Potiau Iogwrt

Poteli Gwydr a Jariau

Poteli Gwin | Poteli Cwrw

Poteli Gwirodydd | Jariau

Tuniau & Caniau

Tuniau

Caniau

Aerosolau

Papur

Papurau Newydd

Papur Swyddfa

Cylchgronau

Catalogau

Post Sothach

Cardbord

Bocsys Grawnfwyd

Bocsys Bwyd

Bocsys Cludo

Cardiau

Rholiau Toiled

Cyngor ar Ailgylchu

Eich Bin Olwyn Glas

Dylid ond defnyddio eich bin olwyn glas ar gyfer y gwastraff a restrir ar y dudalen flaenorol. Peidiwch â rhoi unrhyw un o'r canlynol yn eich bin glas.

Dim diolch

- Bagiau plastig
- Defnydd lapio plastig (e.e. pacedi creision, haenen lynu)
- Clytiau babanod
- Bwyd/hylifau
- Gwastraff gardd

1. Rinsiwch duniau a chaniau, poteli a jariau gwydr, poteli plastig, hambyrddau plastig etc.

2. I gael mantais lawn o'ch bin olwyn glas, malwch, gwasgwch neu fflatiwch ddefnyddiau lle bo hynny'n bosib.

3. Cofiwch roi dim ond y defnyddiau a nodir ar dudalen 3 y daflen hon i mewn. Gall y defnyddiau anghywir halogi'r llwyth cyfan a gallai hynny olygu gorfod ei anfon i dirlenwi.

Rhoi eich Bin Allan i'w Gasglu

Mae'n rhaid i'r bin olwyn glas yn barod erbyn 07.00 ar ddiwrnod y casgliad (gallwch ei roi allan y noson cynt os dymunwch chi).



Mae angen gosod y bin ar ochr y palmant (h.y. lle mae'r dreif yn cyfarfod â'r brifffordd).

Bydd angen i breswylwyr sy'n rhannu dreif osod eu biniau olwyn fel a ganlyn:



Beth fydd yn digwydd i'r Ailgylchu?

Caiff y bin olwyn glas ei lwytho ar y cerbyd casglu ailgylchu.

Wedi i'r cerbyd casglu ailgylchu ddychwelyd i ddepo'r cyngor caiff ei dipio i mewn i'r cilfachau ailgylchu.

Pan fydd gennym ddigon o ddeunydd fe'i llwythir a'i gludo i'r cyfleuster prosesu.

Gan ddefnyddio'r dechnoleg a'r cyfarpar diweddaraf bydd y cyfleuster prosesu'n gwahanu'r defnyddiau ailgylchu cymysg.

Yna fe droir y defnyddiau yn y byrnau'n gynnyrch newydd.

Yna caiff y defnyddiau a wahanwyd eu byrnu.

Cwestiynau a ofynnir yn aml

C. Gaf i ailgylchu gwahanol fathau o blastig?

A. Cewch – cyn belled â bod y gwahanol gynwysyddion yn cael eu rinsio'n lân gellir ailgylchu pob mathau gwahanol o blastig.

C. Gaf i ailgylchu bagiau cario / lapion plastig?

A. Allwn ni ddim casglu bagiau cario / lapion plastig, dim ond cynwysyddion plastig. Mae gan lawer o archfarchnadoedd gynlluniau dychwelyd ar gyfer bagiau cario neu maent yn rhoi cymhelliant i'w ailddefnyddio.

C. Pam nad ydym yn gwahanu'r defnyddiau ailgylchu a'u casglu ar wahân?

A. Mae casglu'r defnyddiau ailgylchu'n gymysg yn golygu llai o gynwysyddion i chi orfod eu storio ac mae hefyd yn ein galluogi ni i gasglu ystod ehangach o ddefnyddiau ailgylchu. Gan fod technoleg wedi datblygu cymaint mae gwahanu'r defnyddiau'n hawdd.

C. Rwyf wedi casglu mwy o ddefnydd ailgylchu nag sy'n bosib ei ffitio yn y bin glas, beth ddylwn i ei wneud?

A. Mae gennym opsiynau maint gwahanol ar gyfer y biniau olwyn glas. Os oes arnoch angen bin ailgylchu mwy cysylltwch â ni ar 01824 706100.

C. Rwy'n byw ar fy mhen fy hun ac mae'r bin olwyn glas yn rhy fawr i mi.

A. Gallwn gyflenwi biniau llai ar gais. Cysylltwch â ni ar 01824 706100.

C. Ydi'r defnyddiau fyddwn ni'n eu casglu'n cael eu hanfon dramor?

A. Unwaith y bydd y defnyddiau i gyd wedi eu gwahanu fe'u hanfonir at broseswyr a masnachwyr y DU.

Llinell Gymorth Ailgylchu: 01824 706100
Gwefan: www.sirddinbych.gov.uk/ailgylchu